**Dyma ychydig o enghreifftiau o blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a allai ddod yn broblem ddifrifol yn ein dyfrffyrdd:**

## BRIALLEN Y DŴR



Mae planhigion dŵr croyw fel briallen y dŵr yn blocio dyfrffyrdd gan gyfyngu ar lywio, ac yn tagu pyllau a llynnoedd. Nid yw briallen y dŵr wedi ymledu'n helaeth ym Mhrydain hyd yma ond os bydd yn lledu ymhellach, fel y gwnaeth mewn rhannau eraill o Ewrop, bydd yn costio £miliynau i'w rheoli.

## MISGLEN QUAGGA



Mae'r fisglen dŵr croyw fechan iawn hon yn bridio'n hynod gyflym ac yn tyfu mewn clystyrau dwys a all orchuddio wyneb isaf cychod a thagu'r propelor.

## PERDYSEN REIBUS



Mae'r berdysen hon yn ysglyfaethwr gwancus ac yn lladd anifeiliaid bychain eraill fel ein perdysen frodorol a physgod ifanc, a gall hyn effeithio'n sylweddol ar yr holl ecosystem. Mae ei maint bychan (3 cm ar y mwyaf) yn golygu y gallai'n hawdd fod ynghudd ar rannau tamp yn eich cwch neu ar eich dillad, lle y gall oroesi am bythefnos.

# ATAL YR YMLEDIAD

Gallwch ganfod mwy am blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a sut i'w hatal rhag ymledu yn:

**nonnativespecies.org/checkcleandry**

@CheckCleanDryGB

Sganiwch y cod QR ar eich ffôn symudol

Department for Environment Food & Rural Affairs
Llywodraeth Cymru Welsh Government
natural scotland SCOTTISH GOVERNMENT
NNSS
RYA
The Green Blue

Lluniau: Cyfoeth Naturiol Cymru, Trevor Renals ac Asiantaeth yr Amgylchedd



## Mae planhigion ac anifeiliaid ymosodol yn blocio dyfrffyrdd ac yn niweidio'r amgylchedd.

**Peidiwch â'u helpu i ymledu ar eich cwch**

**EDRYCH GOLCHI SYCHU**

**Mae planhigion ac anifeiliaid ymosodol o bob rhan o'r byd wedi eu cyflwyno'n ddamweiniol i ddyfroedd ym Mhrydain. Mae dros hanner cant o wahanol rywogaethau eisoes wedi eu canfod yn ein llynnoedd, ein hafonydd a dyfrffyrdd eraill ac mae'r niferoedd sy'n cyrraedd o'r newydd yn cynyddu'n gyflym.**

Maent yn achosi problemau amgylcheddol difrifol a all fod yn ddi-droi'n-ôl – gan gystadlu'n llwyddiannus yn erbyn bywyd gwyllt brodorol, achosi niwed i ecosystemau, a lledaenu clefydau. Gallant hefyd dagu'r propelor a difrodi cychod, gan flocio dyfrffyrdd, cyfyngu ar lywio a chynyddu'r risg o lifogydd.

Gallant fod yn fychan ac anodd eu canfod felly mae'n hawdd iddynt ymledu ar gychod, offer a dillad tamp. **Cofiwch ddiogelu'r amgylchedd a'r gweithgareddau a fwynhewch drwy gadw'ch offer yn lân rhag planhigion ac anifeiliaid ymosodol.**

# ATAL YR YMLEDIAD

**Mae hyd yn oed yn bwysicach Edrych Golchi Sychu os ydych chi'n mynd â'ch cwch dramor, i sicrhau nad ydych yn dod ag unrhyw blanhigion neu anifeiliaid yn ôl gyda chi.**

**Sicrhewch fod popeth yn lân ac wedi cael eu sychu'n drylwyr cyn i chi eu defnyddio eto ar ôl dod adre.**

## Cofiwch edrych yn ofalus ar y mannau hyn



## EDRYCH

**Edrychwch** ar eich cychod, eich offer a'ch dillad ar ôl dod allan o'r dŵr gan chwilio am fwd, anifeiliaid dŵr neu ddeunydd planhigion. Tynnwch unrhyw beth y byddwch yn ei ddarganfod, a'i adael yn y fan a'r lle. Dylech ail-osod deunydd gwrth-halogi yn flynyddol.

## GOLCHI

**Golchwch** bopeth yn drylwyr cyn gynted ag y gallwch, gan roi sylw i raffau, gwaelodion y cwch, ôl-gerbydau a mannau sy'n damp ac yn anodd mynd atynt. Defnyddiwch ddŵr poeth os yn bosibl.

## SYCHU

**Sychwch** – draeniwch ddŵr o bob rhan o'ch cwch a'r ôl-gerbyd cyn gadael y safle. Sychwch bopeth cyn hired â phosibl cyn eu defnyddio yn rhywle arall gan y gall rhai planhigion ac anifeiliaid ymosodol oroesi am bythefnos dan amodau tamp

Gallwch wneud cais am ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth ynghylch Edrych Golchi Sychu ar gyfer eich clwb yn rhad ac am ddim o **nonnativespecies.org/checkcleandry**